# Cofnodion

## Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Dydd Llun 15 Mehefin 2020**
Cyfarfod dros Skype

## 1) Croeso ac Ymddiheuriadau *(Cadeirydd)*

1a Daeth ymddiheuriadau i law gan:
Delyth Lewis-Jones, AHDB
Stephen Marsh-Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru
Liz Franks, Hafren Dyfrdwy

1b Cyflwyniadau
Presenoldeb wedi'i gadarnhau:
Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)
Helen Ross, CNC (Yn cymryd y nodiadau)
Dennis Matheson, TFA
Steven Bradley, DCWW
Aled Jones, UAC
Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru
Creighton Harvey, FfPSG
Bob Vaughan, CNC
Sarah Hetherington, CNC
Marc Williams, CNC
Nichola Salter, CNC
Katy Simmons, CNC
Andrew Chambers, LlC
Spencer Conlon, LlC
Jamie McCoy, AHDB
Kate Snow, United Utilities
Matt Lowe, CNC
Adriana Kiss, ESNR
Lee Price, Menter a Busnes
Kevin Taylor, LlC (ar gyfer eitem 3 yn unig)

1c Datganiad o Fuddiant
Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag Eitemau ar yr Agenda.

## 2) Cofnodion y cyfarfod ar 16 Mawrth 2020 a phwyntiau gweithredu heb eu cwblhau

Cofnodion: Atgoffodd y Cadeirydd y Grŵp fod y recordiad o'r cyfarfod hwn wedi mynd ar goll, ac felly ni fyddai'r cofnodion yn gofnod cynhwysfawr o'r cyfarfod.

Cafodd cofnodion a phwyntiau gweithredu'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2020 eu hadolygu. Dywedodd Creighton Harvey ei fod wedi anfon ei welliannau at Marc Williams cyn y cyfarfod, a bod y rhain wedi'u hymgorffori. Yn dilyn un neu ddau o welliannau pellach, cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Camau Gweithredu: Adolygodd y Cadeirydd y Camau Gweithredu ac roedd pob un wedi'i gwblhau ac eithrio'r canlynol:

***PG 3 Mawrth: Trafodaethau i'w cynnal ar y modd i symud y grwpiau Agrisgôp yn eu blaen a drafftio cynnig i'w gyflwyno i'r Is-grŵp (Mark Squire, CNC).***

***PG 5 Mawrth: Dosbarthu siart y strwythur ar gyfer y tîm Tystiolaeth, Cynllunio a Chaniatáu i'r Is-grŵp (Nik Salter, CNC).***
Dywedodd Nik Salter fod siart strwythur newydd yn cael ei chyhoeddi ac y byddai'n ei dosbarthu i'r Grŵp pan fyddai ar gael.

## Cofnodion y cyfarfod ar 18 Mai 2020 a phwyntiau gweithredu heb eu cwblhau

Cofnodion: Cafodd cofnodion a phwyntiau gweithredu'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2020 eu hadolygu. Roedd gwelliannau wedi dod i law Creighton Harvey cyn y cyfarfod ac roedd y rhain wedi'u hymgorffori. Yn dilyn un neu ddau o welliannau pellach, cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Camau Gweithredu: Adolygodd y Cadeirydd y Camau Gweithredu ac roedd pob un wedi'i gwblhau ac eithrio'r canlynol:

***PG 2 Mai: CNC i ymchwilio i'r dyddiadau pan roddwyd cyfarwyddyd i staff CNC i beidio â mynychu digwyddiadau ac i gyfyngu ar eu presenoldeb mewn digwyddiadau a oedd â risg i iechyd pobl, ynghyd â'r dyddiadau pan gafodd y cyfyngiadau eu codi (Bob Vaughan, CNC)***
Dywedodd Bob Vaughan fod y cam gweithredu hwn wedi cael ei gwblhau ac y byddai'n cael ei ddosbarthu y diwrnod hwnnw.

***PG 7 Mai: Dosbarthu gwybodaeth o ran y modd y byddai CNC yn archwilio graddfa'r her amgylcheddol yng nghyd-destun yr ymgynghoriad cyfredol ar y canllawiau amonia, a hynny i Rachel Lewis-Davies (Marc Williams, CNC)***
Dywedodd Rachel Lewis-Davies fod ymgynghoriad LIC yn awgrymu bwlch yn y dystiolaeth. Ar y pryd, roedd yna lythyr yn llaw CNC yn gofyn am amrywiol ddarnau o wybodaeth i sicrhau sail i'r ymgynghoriad cyfredol ar Ganllawiau Sgrinio Amonia. Roedd hon yn wybodaeth nad oedd wedi'i darparu yn rhan o'r broses ymgynghori. Roedd cyfarfodydd mewnol wedi bod yn cael eu cynnal ac roedd CNC bellach yn barod i ymateb i hyn.

***PG 10 Mai: Dosbarthu nodyn briffio ar y newidiadau mewn Arferion Ffermio Llaeth yng***

***Nghymru i aelodau'r Is-grŵp (Nik Salter, CNC)***
Dywedodd Nik Salter ei bod yn ofynnol gwneud ychydig o newidiadau i'r nodyn briffio ac yna byddai'n cael ei ddosbarthu.

## 3) Diweddariad Llywodraeth Cymru ar Rowndiau'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) a Chynllun y Dyfodol

Rhoddodd Kevin Taylor ddiweddariad ar rowndiau'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Y tair rownd flaenorol oedd SPG 4, 5 a 6. O ran rownd 4 yr SPG: roedd yna 114 o gontractau gwerth £3.5 miliwn; ac o ran rownd 5: 40 o gontractau gwerth £1.3 miliwn. Nid oedd unrhyw gontractau wedi cael eu cynnig ar gyfer SPG 6. Byddai rowndiau'r dyfodol yn dibynnu ar argaeledd cyllideb, ac nid oedd yn gwybod ar y cam hwnnw pryd y byddai ymateb yn dod i law gan y Gweinidog ynghylch y gyllideb wrth symud ymlaen. Eglurodd fod rowndiau 4, 5 a 6 yn gyfredol ac y byddai rownd 7 yn rownd yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y ffigurau hyn yn cynnwys cyfraniad y ffermwr, a hefyd a oedd y rowndiau wedi bod yn llwyddiannus o ran y targed. Esboniodd Kevin fod y swm yn seiliedig ar gyfanswm y gwerthoedd nid gwerthoedd y grant, ac y byddai gwerth y grant yn 40% o'r cyfanswm fel arfer. O ran y targed, esboniodd fod yna lawer o fesurau llwyddiant a bod y llwyddiant cychwynnol yn ymwneud â chyflawni'r gyllideb, a dyma oedd yr achos gyda'r SPG.

Gofynnwyd hefyd a ellid darparu gwybodaeth fanylach am yr hyn y gwariwyd yr SPG arno, ym mha feysydd, faint yr oedd y ffermwyr yn ei gyfrannu, a lle yr oedd y cyllid hwnnw a oedd â pherthynas uniongyrchol â rheoli maethynnau wedi mynd.

***Pwynt Gweithredu 1: Darparu adroddiad manylach ar yr hyn y gwariwyd yr SPG arno, ym mha feysydd, faint yr oedd y ffermwyr yn ei gyfrannu, a lle yr oedd y cyllid hwnnw a oedd â pherthynas uniongyrchol â rheoli maethynnau wedi mynd – i'w anfon at y Cadeirydd ar gyfer ei ddosbarthu (Kevin Taylor, LIC).***

Gofynnodd Rachel Lewis-Davies a oedd unrhyw geisiadau wedi cael eu harfarnu yn ffenestr 5, faint a oedd yn cael eu harfarnu yn ffenestr 6, a beth oedd y llinell amser ar gyfer y broses arfarnu. Gofynnwyd cwestiwn arall ynghylch a oedd rowndiau'r SPG yn y dyfodol yn dibynnu ar Warant y Trysorlys.

Esboniodd Kevin fod yna arfarniadau parhaus yn mynd rhagddynt o ran SPG 5, ac y byddai'n darparu dadansoddiad o'r amserlenni a'r ystadegau i'w dosbarthu i'r aelodau ar ôl y cyfarfod. Tynnodd Kevin sylw at y ffaith eu bod yn symud i ffwrdd o Warant y Trysorlys, sef y grym ar gyfer rowndiau'r SPG yn y dyfodol, ond nad oedd unrhyw gyhoeddiad swyddogol wedi cael ei wneud. Gellid darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau.

***Pwynt Gweithredu 2: Darparu dadansoddiad o'r amserlenni mewn perthynas ag SPG 5 a'i ddosbarthu (Kevin Taylor, LIC).***

***Pwynt Gweithredu 3: Dosbarthu manylion am Warant y Trysorlys i aelodau'r Is-grŵp (Kevin Taylor, LIC)***

Roedd Rachel hefyd am dynnu sylw at y ffaith bod ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Gwledig yn dynodi bod £163 miliwn heb ei glustnodi

ar gyfer prosiectau eto. Hoffai felly ddeall sut yr oedd Gwarant y Trysorlys yn effeithio ar hynny, a sut y gellid defnyddio cymaint o'r arian â phosibl er budd y diwydiant a'r gwelliannau amgylcheddol yr oeddent am eu gweld.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'r ffaith bod cyllid wedi cael ei roi yn un rownd yn gwahardd ceisiadau yn rowndiau'r dyfodol. Dywedodd Kevin nad oedd hynny'n wir, ac y gellid gwneud cais am gynifer o Grantiau ag y dymunid.

Gofynnodd Dennis Matheson a allai landlord wneud cais am Grant os nad ef oedd y ffermwr gweithredol mewn sefyllfa landlord a thenant. Esboniodd Kevin mai'r unigolyn a oedd yn rheoli a fyddai â'r hawl i wneud cais.

## 4) Datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Rhoddodd Spencer Conlon wybod i'r Grŵp nad oedd y Gweinidog, oherwydd y pandemig cyfredol, yn mynd i wneud penderfyniad ar gyflwyno unrhyw reoliadau. Wrth symud ymlaen, roedd y Gweinidog wedi dweud y byddai'n gohirio'r penderfyniad hwnnw. Roeddid yn ailedrych ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y pryd, ac roedd yna hefyd oblygiadau parhaus mewn perthynas â'r pandemig. Roedd yna gysylltu rheolaidd yn mynd rhagddo ag amrywiaeth o fforymau i gael mewnbwn gan nifer o'r Rhanddeiliaid. Roedd amryw o gyfarfodydd Rhanddeiliaid yn cael eu cynnal, gan gynnwys cyfarfodydd unigol â'r Gweinidog a Swyddogion, a chyfarfodydd a oedd yn ymateb i'r pandemig. Byddai'r rhain i gyd yn rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth, a fyddai'n cael ei hystyried ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Yn ogystal, pe byddai unrhyw un o'r Grŵp yn dymuno cyflwyno gwybodaeth ychwanegol er mwyn cynorthwyo i gwblhau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yng nghyd-destun y pandemig cyfredol, ynghyd ag unrhyw oblygiadau i'r diwydiant, byddai'r sylwadau hynny'n cael eu hystyried gennym wrth ddatblygu'r Asesiad o'r Effaith. Byddai hwn yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog pan fyddai'n dynodi wrthym ei bod am gael cyngor ar y rheoliadau newydd.

Byddai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag unrhyw reoliadau newydd a oedd yn cael eu gosod yn unol â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru. Ni fyddent ar gael ar ffurf ddrafft cyn eu cyhoeddi.

***Pwynt Gweithredu 4: Gwybodaeth i gynorthwyo i gwblhau Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r pandemig cyfredol i'w hanfon at Spencer Conlon, LIC (Pawb)***

Bu peth trafodaeth ynghylch a fyddai gan yr achos ynghylch llygredd a oedd yn cael ei gyflwyno gan Afonydd Cymru yn Llys y Comisiwn Ewropeaidd ar y pryd unrhyw oblygiad o ran amseriad penderfyniad y Gweinidog. Dywedodd Adriana Kiss fod hon yn broses gymhleth ac nad oedd unrhyw benderfyniad swyddogol wedi'i wneud o ran yr hyn a fyddai'n digwydd mewn perthynas â gweithdrefnau dwyn achos am dorri cyfraith Ewropeaidd tra oedd y Deyrnas Unedig yn aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

***Pwynt Gweithredu 5: Gwirio i weld a oedd gan yr achos cyfredol a oedd yn cael ei gyflwyno gan Afonydd Cymru yn Llys y Comisiwn Ewropeaidd unrhyw oblygiadau o ran amseriad penderfyniad y Gweinidog (Spencer Colon, LIC)***

## 4) COVID-19/Diweddariad ar y Tywydd Sych Hirfaith, ynghyd â materion yn ei gylch

Dywedodd Bob Vaughan fod y gwanwyn wedi bod yn un o'r rhai sychaf ers blynyddoedd lawer. Ynghyd â'r problemau ynghylch COVID, roedd hyn wedi cael effaith ar waith CNC. Gwahoddodd Bob sylwadau ar unrhyw faterion yr oedd y Grŵp am eu mynegi ynghylch canlyniadau'r tywydd sych a'r diwydiant ei hun.

Dywedodd Marc Williams fod canllawiau i ffermwyr ar ddŵr ar gyfer da byw a'r amgylchedd wedi cael eu llunio yn 2018. Roedd y rhain bellach wedi cael eu hadolygu, a byddent yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC.

***Pwynt Gweithredu 6: Dosbarthu dolen i'r canllawiau i ffermwyr i'r Is-grŵp (Marc Williams, CNC)***

Rhoddodd Lee Price ddiweddariad ynghylch y ffaith bod gan Cyswllt Ffermio dudalen wedi'i neilltuo ar gyfer tywydd sych, a dywedodd y byddai'n ychwanegu'r canllawiau i ffermwyr at y dudalen wedi iddynt gael eu dosbarthu. Roedd y dudalen yn cynnwys gwybodaeth amrywiol am effeithiau tywydd sych, y modd yr oedd ffermwyr yn delio ag ef, ynghyd â swm dŵr, pori a stoc, ac ati. Roedd yn fwriad ganddynt hefyd i ehangu'r wybodaeth ar y dudalen i gynnwys tywydd eithafol. Roedd cymorthfeydd COVID-19 yn cael eu cynnal ar gyfer ffermwyr, lle gallent gael cymorth gan arbenigwr am awr dros y ffôn neu'n ddigidol, a hynny ynghylch unrhyw bwnc ac yn rhad ac am ddim. Roedd gweminarau digidol yn cael eu cynnal bod dydd Mawrth a dydd Iau. Roeddent yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau, ac wedi cael croeso cynnes iawn gan y diwydiant.

Dywedodd Steve Bradley eu bod wedi bod yn cynnal ymgyrch effeithlonrwydd dŵr gan fod y cronfeydd wedi gostwng o ganlyniad i'r tywydd sych. Roedd llawer o'r gwaith ymgysylltu â ffermwyr wedi cael ei ohirio, ond roeddent yn awyddus i weithio gyda Cyswllt Ffermio ac asiantaethau eraill ar wahanol brosiectau.

Dywedodd Adriana Kiss fod adnoddau dŵr yn dal i fod wedi'u marcio'n goch oddi ar ddydd Gwener 12 Mehefin, a hynny er gwaethaf y glawiad yn ystod yr ychydig ddyddiau blaenorol. Roedd yna broblemau'n parhau, a hynny nid yn unig oherwydd y tywydd sych, ond hefyd oherwydd cynnydd yn y defnydd o ddŵr mewn cartrefi o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud. Roedd LIC yn cymryd hyn o ddifrif, ac roedd Grŵp Cyswllt Sychder wedi cael ei sefydlu i fonitro'r sefyllfa.

O ystyried yr amodau hyn, gofynnodd Bob Vaughan a ddylai'r Grŵp fod yn mynd ati i lunio gwybodaeth/arweiniad ar gyfer ffermwyr a defnyddwyr tir eraill. Cytunwyd y gellid edrych ar hyn yn rhan o'r cynllun cyfathrebu, ac roeddid yn gytûn y byddai amseru yn allweddol i'r broses o anfon gohebiaeth.

Dywedodd Dennis Matheson fod dŵr ar gyfer da byw wedi bod yn broblem gan fod mwyafrif y ffermydd yn yr ardal yn dibynnu ar nentydd neu ffynhonnau bas. Roedd cyfathrebu hefyd wedi bod yn broblem. Roedd y gwasanaeth post wedi lleihau ei wasanaeth dosbarthu, ac nid oedd pawb ar-lein, felly roedd adrodd am symudiadau i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) neu i Tagio Electronig (EID) Cymru wedi bod yn anodd.

Rhannodd Jamie McCoy y ddolen ganlynol i AHDB ar sychder
https://ahdb.org.uk/knowledge-library/drought

## 5) Parhad Camau Nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ...

Dywedodd y Cadeirydd fod Bob Vaughan yn gweithio ar ddod o hyd i rywun i ymuno â'r Grŵp a fyddai'n helpu i arwain y camau gweithredu a'r mentrau. Roedd bod heb gymorth llawn-amser wedi bod yn broblem erioed, ond roedd y Grŵp wedi cyflawni swm aruthrol yn ystod yr ychydig flynyddoedd blaenorol. Roedd y Cadeirydd yn dymuno i'r Grŵp adolygu'r Adroddiad Interim o 2018 yn y cyfarfod hwnnw, gan nodi rhai o'r prif flaenoriaethau, a'r modd y gellid eu symud yn eu blaen, a hynny gyda phob aelod o'r Grŵp yn cymryd rhan yn yr hyn a oedd yn bosibl ac a fyddai'n sicrhau symudiad tuag at y nod o reoli llygredd amaethyddol. Roedd hefyd am i'r Grŵp edrych ar yr adroddiad Safon Dŵr eto, a'r modd y gallai'r grŵp symud hyn yn ei flaen i weithio tuag at y fenter wirfoddoli honno.

Rhannodd Marc Williams yr argymhellion ar y sgrin.

Dywedodd Bob Vaughan ei fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r hyn a oedd yn cyfateb i gov.uk, ynghyd ag adran i geisio ad-drefnu ei gwefannau. Cafwyd peth trafodaeth ynghylch a oedd hyn yn rhywbeth yr oedd y Grŵp yn dymuno dylanwadu arno o'r dechrau cyntaf mewn perthynas â chael yr holl wybodaeth mewn un man. Cytunwyd y byddai'n fuddiol cael un man ar gyfer gwybodaeth.

Mynegodd Steven Bradley fod eu prif argymhellion ym Mhennod 6 yr Adroddiad Interim ar Well Cyngor a Chanllawiau.

Dywedodd Aled Jones fod llawer o waith wedi mynd i mewn i'r adroddiad ac y byddai'n ddiddorol gwybod barn LIC arno. Nododd LIC mai mater i'r grŵp cyfan oedd adolygu a bwrw ymlaen â'r argymhellion a oedd wedi'u nodi yn yr Adroddiad Interim.

Mynegodd Dennis Matheson bryderon ynghylch yr angen i drosglwyddo'r gwaith a wnaed gan fforymau eraill a'r Grŵp ar yr Adroddiad Interim. Roedd wedi mynychu cyfarfodydd eraill, ac ymddangosai nad oeddent yn gwybod dim am y gwaith yr oedd y Grŵp wedi bod yn ei wneud; teimlai ei bod yn bwysig sicrhau bod yr Adroddiad hwn yn fwy cyhoeddus i grwpiau eraill. Roedd yna wybodaeth ddigonol yn yr Adroddiad Interim am y problemau y byddai tenantiaid yn eu cael o ran cydymffurfio ag unrhyw Reoliadau Llygredd, a gofynnodd a allai'r Grŵp gynnig syniadau i helpu Llywodraeth Cymru i oresgyn y broblem.

Ymatebodd Katy Simmons trwy ddweud mai un o'r pethau allweddol yr oedd yn edrych arno yn rhan o'r Cynllun Cyfathrebu oedd y modd y gellid cyfathrebu'r gwaith yr oedd y Grŵp yn ei wneud yn well, a thynnu sylw fforymau eraill ato.

Crybwyllodd Creighton Harvey fod Argymhelliad 3.1 Dadansoddiad o Wraidd y Broblem yn flaenoriaeth. Dywedodd fod pethau wedi symud yn eu blaen ers yr adroddiad yn ôl ym mis Ebrill 2018, a gofynnodd am i'r wybodaeth hon gael ei diweddaru gan fod peth o'r dystiolaeth wedi newid.

Awgrymodd Lee Price y byddai'n ddefnyddiol rhoi'r argymhellion mewn cynllun gweithredu fel y gellid gweld yr hyn a oedd wedi'i gwblhau, ac yna eu gosod yn flaenoriaethau byrdymor, tymor canolig a hirdymor, neu'n flaenoriaethau uchel, isel neu ganolig, a nodi pa sefydliadau a fyddai'n ofynnol i symud rhai o'r argymhellion hyn yn eu blaen. Byddai hyn hefyd yn

caniatáu i'r Grŵp weld yr hyn a oedd wedi cael ei gyflawni. Roedd yn hapus i weithio gyda'r aelodau o amgylch y bwrdd a chefnogi unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

Gofynnodd y Cadeirydd i Lee siarad mwy am y Cynlluniau Rheoli Maethynnau, gan gydnabod ei fod wedi gwneud llawer o waith arnynt, a holodd a ddylai'r rhain fod yn uchel ar y rhestr blaenoriaethau.

Dywedodd Lee Price fod Cynlluniau Rheoli Maethynnau a chynlluniau seilwaith, yn rhai wedi'u hariannu'n llawn neu'n rhannol, yn dal i fod ar gael ar gyfer busnesau cofrestredig. Roedd adolygiadau'n cael eu cynnal 12 mis wedi i'r adroddiad gael ei gwblhau a'i gytuno gan y busnes, a châi ei gyflwyno i Cyswllt Ffermio gan yr Ymgynghorydd. Yn ogystal â'r adroddiadau, roeddid hefyd yn edrych ar y cynllun gweithredu yr oedd yr ymgynghorwyr wedi'i lunio. Rhan o'r gwerthusiad hwnnw oedd gofyn beth yr oeddent wedi'i wneud, beth yr oeddent wedi'i gyflawni, a oeddent wedi dilyn yr argymhellion, ac a oeddent wedi cyflawni unrhyw un o bwyntiau'r cynllun gweithredu. Roedd tua 500 o werthusiadau wedi cael eu cynnal yn ystod y ddeufis a hanner blaenorol. Yr un oedd y broses ar gyfer y cynllun seilwaith. Roedd yn bosibl mai un o'r pwyntiau gweithredu hynny fyddai gwneud cais am yr SPG, er enghraifft. Dywedodd y byddai'n edrych ar y gwerthusiad ar gyfer y ddau bwynt hynny, gyda'r bwriad o ddod ag adroddiad i'r cyfarfod nesaf ar yr hyn yr oeddid yn ei ganfod o ran y Cynlluniau Rheoli Maethynnau a cheisiadau seilwaith.

***Pwynt Gweithredu 7: Darparu adroddiad yn y cyfarfod nesaf ar y canfyddiadau o ran y Cynlluniau Rheoli Maethynnau a cheisiadau seilwaith (Lee Price – Menter a Busnes)***

Dywedodd Jamie McCoy fod llawer o'r argymhellion yn ymwneud â gwybodaeth ac arbenigedd, a theimlai ei bod yn bwysig i'r arbenigedd fod yn destun hyfforddiant da, a bod pob asiantaeth yn parchu'r wybodaeth a oedd wedi cael ei rhoi. Roedd yr hirhoedledd yn hanfodol bwysig er mwyn i ffermwyr ymgysylltu â hyn.

Yn dilyn adborth gan aelodau'r Is-grŵp a thrafodaeth yn ystod y cyfarfod, adolygwyd yr argymhellion canlynol a'u nodi yn flaenoriaeth, i'w cymeradwyo gan y Grŵp: 3.1, 4.7, 4.12, 6.1, 6.4, 6.6 a 6.10.

***Pwynt Gweithredu 8: Adolygu'r cynllun gweithredu a blaenoriaethu rhai o'r prosiectau yn seiliedig ar drafodaethau, gan geisio dangos y cynnydd a wnaed ar yr holl argymhellion erbyn y cyfarfod nesaf (Sarah Hetherington, Marc Williams, Bob Vaughan, CNC)***

**Yr Adroddiad Safon Dŵr:**

Gofynnodd y Cadeirydd am adborth gan y Grŵp ar yr Adroddiad Safon Dŵr. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yna unrhyw arian ar gael i symud hyn yn ei flaen. Dywedodd Bob Vaughan fod yna dîm yn CNC sy'n edrych ar gyllid allanol.

***Pwynt Gweithredu 9: Siarad â'r Tîm yn CNC sy'n edrych ar gyllid allanol i weld pa gyfleoedd a allai fod ar gael i gefnogi'r Adroddiad Safon Dŵr, a bwrw ymlaen â'r camau nesaf (Bob Vaughan, CNC)***

Awgrymodd Aled Jones y dylid cael trafodaeth â John Owen o Gelli Aur ynghylch cyllid ar gyfer prosiectau.

***Pwynt Gweithredu 10: Siarad â John Owen, Gelli Aur am gyllid allanol, yn unol â PG 7 (Bob Vaughan, CNC)***

Dywedodd Kate Snow y gallai United Utilities, yn ôl pob tebyg, ddarparu cymorth ariannol i gyflwyno neges unedig i ffermwyr yng Ngogledd Cymru ynghylch y modd i leihau llygredd dŵr, ynghyd ag i feithrin ymwybyddiaeth.

Gofynnodd Marc Williams a hoffai'r Cadeirydd weld y ddogfen ar ffurf cynllun gweithredu tebyg i'r un a gyflwynwyd yn ystod yr haf y llynedd, gan ddefnyddio'r pum thema yn benawdau.

***Pwynt Gweithredu 11: Adolygu fformat y Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Adroddiad Safon Dŵr (Y Cadeirydd a Marc Williams, CNC)***

## 6) Diweddariad Cyfathrebu Fforwm Rheoli Tir Cymru

Aeth Katy Simmons trwy'r Cynllun Cyfathrebu drafft, ac yna aeth ati i rannu ar y sgrin y negeseuon, yr amcanion a'r cwestiynau allweddol a oedd wedi cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod.

Dywedodd Steven Bradley fod Catherine Jones wedi ymuno â'u tîm cyfathrebu ar Brosiect Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog, a deallai fod Catherine a Katy yn adnabod ei gilydd. Roedd Catherine yn barod i weithio gyda Katy o ran y cynnwys. Dywedodd Katy ei bod eisoes wedi bod mewn cysylltiad â Catherine.

Cafwyd peth trafodaeth ar y ffordd orau i ymgysylltu'n benodol â'r bobl hynny nad oeddent yn gallu cyrchu'r Rhyngrwyd. Cytunwyd mai dull cytbwys o ddefnyddio cymaint o lwybrau cyfathrebu â phosibl a fyddai'r ffordd orau ymlaen wrth geisio cyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Roedd marchnadoedd da byw a digwyddiadau eraill hefyd yn cael eu defnyddio i ledaenu gwybodaeth.

Mynegwyd hefyd yr angen i sicrhau bod Amcan 2 yn glir o ran yr hyn a oedd yn ofyniad rheoleiddiol,
yr hyn a oedd yn destun trawsgydymffurfio, yr hyn a allai ddod o dan gytundebau cyfreithiol – yr amgylchedd amaethyddol, a'r hyn a oedd yn gynghorol, h.y. y Cod Ymarfer Amaethyddol Da (CoGAP).

Yn hytrach na chyfeirio at reolaeth reoleiddiol neu ganllawiau, awgrymodd Creighton Harvey mai neges symlach oedd yn ofynnol yn gyffredinol ynghylch ffermio a dŵr, neges a fyddai'n dweud ei bod yn annerbyniol dympio gwastraff mewn afonydd, gyda chyfeiriad at sawl math gwahanol o wastraff, er enghraifft slyri, plastigion ac anifeiliaid marw.

***Pwynt Gweithredu 12: Adolygu'r Cynllun Cyfathrebu yn seiliedig ar y sylwadau a gafwyd ynghylch Amcan 2, ac anfon y fersiwn ddrafft ddiwygiedig oddi amgylch ar gyfer y cyfarfod nesaf (Katy Simmons – CNC)***

Dywedodd Rachel Lewis-Davies y gellid dileu llygredd amaethyddol a byddai dŵr yn dal i fethu cyrraedd y safonau – dyna a amlygid gan y dystiolaeth. Roedd darlun cywir o'r

problemau yn hanfodol er mwyn sicrhau ymddiriedaeth ac ymrwymiad y gymuned ffermio.

Byddai Katy Simmons yn trefnu cyfarfodydd un i un unigol â rhai aelodau o’r Grŵp i ddarganfod rhagor am yr hyn yr oedd eu sefydliadau yn ei wneud a pha wybodaeth a oedd yn eu meddiant eisoes a fyddai’n ddefnyddiol ar gyfer hyn, ynghyd â chael syniadau pellach ynghylch y dull i'w fabwysiadu.

Cytunwyd y byddai'r Is-grŵp yn adolygu'r cwestiynau a fynegwyd gan Katy ac yn rhoi adborth ar ôl y cyfarfod.

***Pwynt Gweithredu 13: Cwestiynau ac adborth ynghylch yr adolygiad o'r Cynllun Cyfathrebu i'w cyflwyno i Katy Simmons neu Marc Williams, CNC (Pawb)***

## 7) Ystadegau Llygredd Amaethyddol

Rhannodd Marc Williams gyflwyniad ar Ystadegau Llygredd Amaethyddol a Data Prosiectau Llaeth, gan egluro'r sleidiau. Esboniodd ei bod yn ofynnol gwirio ansawdd y ddogfen cyn iddi gael ei rhannu.

Mynegwyd y sylwadau/cwestiynau canlynol:

Sleid 2: Digwyddiadau Llygredd i Ddŵr yn ôl Sector – ystyr 'Eiddo Heb ei Nodi', ac a yw'r Diwydiant Dŵr yn cynnwys Systemau Gorlif Carthffosydd Cyfun (CSOs).
Pe byddai digwyddiad yn cael ei brofi (ei gadarnhau) ond y ffynhonnell heb ei nodi, byddai'r digwyddiad llygredd yn cael ei amlygu yn ddigwyddiad Eiddo Heb ei Nodi.

Roedd yna ansicrwydd ynghylch a oedd CSOs yn cael eu cynnwys a byddai angen eglurhad ar hyn. Yn ystod stormydd, caniateid i Systemau Gorlif Carthffosydd Cyfun ryddhau dŵr storm, a allai gynnwys carthion, i gwrs dŵr.

***Pwynt Gweithredu 14: Sicrhau eglurhad ynghylch a yw ystadegau'r Diwydiant Dŵr yn cynnwys CSOs (Nik Salter, CNC)***

Dywedodd Rachel Lewis-Davies fod aelod wedi rhannu ystadegau o wefan DCWW ar Systemau Gorlif Carthffosydd Cyfun, gan ofyn am esboniad. Roedd y safle y cyfeirid ato yn Llanwrtyd yn gorlifo am awr bob pedair awr, ac roedd yr aelod am gael gwybod ym mha ffordd yr oedd yr ystadegau'n adlewyrchu hyn.

***Pwynt Gweithredu 15: Darparu gwybodaeth i Rachel Lewis-Davis mewn ymateb i'r ymholiad am ystadegau ar wefan Dŵr Cymru ar CSOs, a'r modd yr oedd yr ystadegau'n adlewyrchu hyn (Bob Vaughan, CNC)***

Sleid 3: Digwyddiadau Amaethyddol a oedd yn effeithio ar ddŵr – gofynnodd Creighton Harvey am wybodaeth am y modd yr oedd y cyfyngiadau symud wedi effeithio ar y gwaith o gofnodi a chadarnhau digwyddiadau a gymerodd le, a pha un a oedd y digwyddiadau yr adroddodd amdanynt ym mis Mawrth wedi cael eu cynnwys yn y graff. Nid oedd Marc Williams yn gallu darparu sylwadau ar adroddiadau am ddigwyddiadau llygredd unigol, ond dywedodd y byddai'r graff nesaf yn dangos nifer y digwyddiadau a gymerodd le yn ystod y cyfyngiadau symud, ynghyd â nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau i ddŵr a oedd yn ddi-

sail mewn perthynas ag amaethyddiaeth.

Sleid 4: Digwyddiadau i ddŵr a Brofwyd a Digwyddiadau i ddŵr Di-sail mewn perthynas ag Amaethyddiaeth – gofynnodd Rachel Lewis-Davies am i ddiffiniadau o 'a brofwyd' a 'di-sail' gael eu darparu pan gyhoeddid y ffigurau. Dywedodd Marc Williams y byddai'n ychwanegu esboniad rhybuddiol at y graff.

Trosglwyddodd Marc Williams i Matt Lowe i gyflwyno gweddill y sleidiau.

Sleid 5: Fel yn achos sleid 4 o'i blaen, roedd yn bwysig bod esboniad rhybuddiol yn cael ei ychwanegu at y graff.

***Pwynt Gweithredu 16: Yn unol â'r adborth, gwirio ansawdd yr Ystadegau Llygredd Amaethyddol a'u diwygio, a dosbarthu'r graffiau i'r Is-grŵp (Marc Williams, CNC)***

## 8) Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfodydd hyn yn parhau i gael eu cynnal trwy Skype hyd y gellid rhag-weld.

- Dydd Llun 13 Gorffennaf
- Dydd Llun 17 Awst
- Dydd Llun 14 Medi
- Dydd Llun 19 Hydref
- Dydd Llun 16 Tachwedd
- Dydd Llun 14 Rhagfyr

## 9) Diweddariad ar weithgareddau dyddiadur perthnasol neu ddigwyddiadau wedi'u canslo/gohirio

Dim diweddariad

## 10) Unrhyw fater arall

- **Ymgynghoriad ar y Canllawiau Amonia**

  Roedd y Canllawiau Amonia bellach yn destun ymgynghoriad, pe byddai'r aelodau'n dymuno eu gweld. Dywedodd Bob Vaughan fod trafodaethau wedi cael eu cynnal yn flaenorol a'u bod yn cael eu cynnal ar y pryd ag NFU Cymru, ac y byddent hefyd yn cael eu cynnal â sefydliadau eraill.

- **Datganiad i'r Wasg ynghylch Tynnu Graean –**

https://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/news-and-events/news/illegal-gravel-removal-puts-river-wildlife-at-risk/?lang=cy

Roedd datganiad i'r wasg wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar. Byddai datganiad arall i'r wasg yn cael ei gyhoeddi i atgoffa ffermwyr a pherchnogion tir, neu unrhyw un a oedd yn defnyddio afon, fod caniatâd yn ofynnol, yn y mwyafrif o achosion, i dynnu graean, ac y gallai aflonyddu ar afon fod yn niweidiol iawn i'r amgylchedd dyfrol. CNC yn dymuno cael negeseuon gan Bysgodfeydd/Undebau Ffermwyr i'w cynnwys mewn datganiad i'r wasg.

***Pwynt Gweithredu 17: Aelodau'r Is-grŵp i ddarparu negeseuon ar Dynnu Graean ar gyfer datganiad arall i'r wasg i Marc Williams, CNC (Pawb)***

Gofynnodd Creighton Harvey a oedd yna gydsyniad cyfyngedig yn bodoli o ran swm y graean y gellid ei dynnu. Bob Vaughan i sicrhau eglurhad ar hyn.

***Pwynt Gweithredu 18: Sicrhau eglurhad ynghylch a oedd yna gydsyniad cyfyngedig yn bodoli o ran swm y graean y gellid ei dynnu (Bob Vaughan, CNC)***

- **Cymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol**

Dywedodd y Cadeirydd fod Cymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol wedi bod mewn cysylltiad i gynnig cymorth. Roedd y gymdeithas yn bwriadu cynnal arolwg o gontractwyr Cymru, a allai fod yn ddefnyddiol o ran deall elfennau megis y ffordd orau o gyfathrebu â'r contractwyr, a phwy oeddent. Roedd yr wybodaeth hon wedi cael ei throsglwyddo i Katy Simmons.

- **Adroddiadau Llaeth**

Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf ar adroddiadau a oedd ar goll am fod y Swyddog Llaeth wedi ymadael, gofynnodd y Cadeirydd a oedd yna ddiweddariad ar yr adroddiadau llaeth. Dywedodd Matt Lowe wrth y Grŵp fod 688 o ymweliadau wedi cael eu cynnal hyd hynny, a bod 640 o adroddiadau wedi cael eu cyhoeddi. Roedd chwe adroddiad yn disgwyl sylw mewn perthynas ag ymweliadau a gyflawnwyd cyn y cyfyngiadau symud, ac roedd 42 o adroddiadau nad oeddent wedi cael eu cyhoeddi ac a oedd yn hwyr yn ganlyniad i Swyddogion yn gadael y prosiect. Dywedwyd bod sylw'n parhau i gael ei roi i'r rhain ac o ran neilltuo amser i gyhoeddi'r adroddiadau. Nodwyd y daethpwyd i gytundeb â Rheolwyr Llinell Cyn-swyddogion Llaeth i gwblhau adroddiadau a oedd yn parhau i ddisgwyl sylw yn dilyn ymweliadau â ffermydd. Lle nad oedd yn bosibl gwneud hynny, byddai'r ffermwr yn cael cynnig o ymweliad arall. Roeddid wedi cysylltu â'r holl ffermwyr ac roeddent yn ymwybodol o'r sefyllfa.

**Daeth y cyfarfod i ben.**